# Atchwanegiadau bwyd

Beth yw atchwanegiadau bwyd a beth sydd angen i chi ei wneud fel busnes i'w gwerthu.

## Beth yw atchwanegiad bwyd?

Diffinnir atchwanegiad bwyd fel 'unrhyw fwyd sydd â'r pwrpas o ategu'r deiet arferol ac sy'n ffynhonnell grynodedig o fitamin, mwyn neu sylwedd arall sydd ag effaith maethol neu ffisiolegol, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ac sy'n cael ei werthu ar ffurf dos'.

Gallai ystod eang o faethynnau a chynhwysion eraill fod yn bresennol mewn atchwanegiadau bwyd. Gall y rhain gynnwys:

- fitaminau
- mwynau
- asidau amino
- asidau brasterog hanfodol
- ffeibr
- planhigion a rhin (extracts) perlysieuol amrywiol

Bwriad atchwanegiadau bwyd yw cywiro diffygion maethol, sicrhau bod y corff yn cael digon o faethynnau penodol, neu gefnogi swyddogaethau ffisiolegol penodol. Nid ydynt yn gynhyrchion meddyginiaethol ac o'r herwydd ni allant gyflawni gweithred ffarmacolegol, imiwnolegol na metabolig. Felly, ni fwriedir iddynt gael eu defnyddio i drin nac i atal clefydau mewn pobl nac i addasu swyddogaethau ffisiolegol.

Yn y Deyrnas Unedig (DU), mae'n ofynnol i atchwanegiadau bwyd gael eu rheoleiddio fel bwyd ac maent yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cyfraith bwyd cyffredinol. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith bwyd yr Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n ymwneud ag atchwanegiadau bwyd yn parhau i fod yn berthnasol, fel y rhestrir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon.

# Cofrestru

I werthu atchwanegiadau bwyd, mae'n rhaid i chi gofrestru fel Gweithredwr Busnes Bwyd gyda'ch awdurdod lleol.

# Gwerthu eich cynhyrchion

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr atchwanegiadau bwyd rydych chi'n eu gwerthu yn ddiogel i'w bwyta. Mae rhai pethau penodol y dylech chi eu gwneud i sicrhau eu bod yn ddiogel.

### Defnyddio cyflenwr sydd ag enw da

Dylai eich cyflenwr fod wedi cofrestru fel busnes gyda'u hawdurdod lleol a darparu anfonebau a derbynebau llawn.

Peidiwch â phrynu atchwanegiadau dros y we oni bai eich bod chi'n hyderus bod y cyflenwr yn un sydd ag enw da.

Byddwch yn wyliadwrus o gynhyrchion ffug, yn enwedig os ydych chi'n prynu cynhyrchion dros y we a phan fydd pris y cynnyrch yn rhatach na chyflenwyr eraill.

Mae'n anghyfreithlon gwerthu 2,4-dinitrophenol (DNP) i'w fwyta gan bobl yn y DU. Mae'n cael ei werthu fel pilsen deiet ar gyfer colli pwysau, ond mae'n gemegyn diwydiannol hynod wenwynig ac nid yw'n addas i'w fwyta gan bobl.

Dylech rhoi gwybod am unrhyw un sy'n gwerthu DNP ar unwaith i'r heddlu lleol, yr awdurdod lleol, Crimestoppers neu drwy'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae ein tudalen ar DNP yn cynnwys rhagor o wybodaeth am beryglon y cemegyn hwn.

## Cadw cofnodion

Cofiwch gadw cofnodion fel y gallwch chi nodi'r busnes y gwnaethoch chi brynu'r atchwanegiadau bwyd oddi wrtho ac i bwy y gwnaethoch chi eu gwerthu. Rhaid i chi hefyd gadw dogfennau fel anfonebau a nodiadau cyflenwi a dangos y dogfennau hyn os bydd awdurdodau gorfodi'n gofyn amdanynt.

## Labelu

Gwnewch yn si?r bod yr atchwanegiadau bwyd rydych chi'n eu gwerthu wedi'u labelu'n gywir. Os nad ydyn nhw, cysylltwch â'ch cyflenwr a threfnwch i ddychwelyd y cynhyrchion neu peidiwch â'u derbyn yn y lle cyntaf.

**Sut y dylid labelu atchwanegiadau bwyd?**

Rhaid i'r cynnyrch gael ei labelu fel 'atchwanegiad bwyd' ac nid 'atchwanegiad deietegol'.
Rhaid i label y cynnyrch gynnwys:

- enw a chyfeiriad y busnes, y gellir eu rhoi naill ai ar label y cynnyrch neu ar ddeunydd pecynnu'r cynnyrch. Rhaid i hyn fod naill ai:

(a) enw'r busnes y mae'r bwyd yn cael ei farchnata ganddo; neu

(b) cyfeiriad y busnes sydd wedi mewnforio'r bwyd

Rhaid i atchwanegiadau bwyd a werthir yng Ngogledd Iwerddon gynnwys cyfeiriad yng Ngogledd Iwerddon neu'r UE ar gyfer y busnes bwyd. Os nad yw'r busnes bwyd yng Ngogledd Iwerddon nac yn yr UE, rhaid iddynt gynnwys cyfeiriad y mewnforiwr, sydd wedi'i leoli yng Ngogledd Iwerddon neu'r UE. Gall gweithredwyr busnesau bwyd barhau i ddefnyddio cyfeiriad yn yr UE, Prydain Fawr neu Ogledd Iwerddon ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd ar atchwanegiadau bwyd a werthir ym Mhrydain Fawr tan 30 Medi 2022. O 1 Hydref 2022, rhaid i atchwanegiadau bwyd a werthir ym Mhrydain Fawr gynnwys cyfeiriad yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw ar gyfer y busnes bwyd. Os nad yw'r busnes bwyd ym Mhrydain Fawr, rhaid iddynt gynnwys cyfeiriad y mewnforiwr, sydd wedi'i leoli yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

- rhestr o gynhwysion, gan gynnwys alergenau cyffredin y mae'n rhaid eu pwysleisio
- amodau defnyddio, gan gynnwys gwybodaeth am y dos dyddiol a argymhellir a rhybudd i beidio â bwyta mwy na hyn
- cyfarwyddiadau storio gan gynnwys datganiad sy'n nodi y dylid storio'r cynnyrch mewn man nad yw o fewn cyrraedd plant ifanc
- dyddiad 'defnyddio erbyn' neu 'ar ei orau cyn'

- faint o unrhyw fitamin neu fwyn neu sylwedd arall ag effaith faethol neu ffisiolegol sy'n bresennol yn y cynnyrch
- datganiad sy'n nodi na ddylid defnyddio atchwanegiadau bwyd yn lle deiet amrywio

Rhaid i'r wybodaeth hon fod naill ai ar:

- y pecyn
- label sydd ynghlwm wrth y pecyn
- label sy'n amlwg drwy'r pecyn

## Mewnforio atchwanegiadau

Os ydych chi'n mewnforio atchwanegiadau i'r DU, rydych chi'n gyfrifol yn gyfreithiol am bob agwedd ar y nwyddau hynny, gan gynnwys cyfansoddiad, diogelwch a labelu'r cynhyrchion.

## Gofynion cyfreithiol

Dyma sut y mae'r cyfrifoldeb deddfwriaethol a'r polisi ar gyfer atchwanegiadau bwyd wedi'i rannu ledled y DU:

- Cymru – Llywodraeth Cymru
- Lloegr – yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Yr Alban – Safonau Bwyd yr Alban
- Gogledd Iwerddon – yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Yn ogystal â'r gofynion hyn, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â deddfwriaeth benodol ar gyfer labelu bwyd ac atchwanegiadau.

### Gofynion cyfreithiol – Cymru

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 a Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) 2003

### Gofynion cyfreithiol – Lloegr

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 a Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Lloegr) 2003

### Gofynion cyfreithiol – Gogledd Iwerddon

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Gogledd Iwerddon) 2014 a Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Gogledd Iwerddon) 2003

## Newidiadau o 1 Ionawr 2021

Mae atchwanegiadau bwyd yn cael eu rheoleiddio gan ddeddfwriaeth sy'n cael ei llunio ym mhob rhan o'r DU (gweler yr adran Gofynion Cyfreithiol uchod). Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at Atodiad Cyfarwyddeb 2002/46/EC, sy'n nodi rheolau ar gyfer fitaminau a mwynau a ddefnyddir mewn atchwanegiadau bwyd.

Ar 1 Ionawr 2021 daeth Rheoliadau Maeth (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2019 a Rheoliadau Maeth (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020 i rym. Trosglwyddodd y rhain gyfrifoldebau am reoleiddio atchwanegiadau bwyd o sefydliadau'r UE sy'n ymwneud â'r prosesau asesu risg a

rheoli risg i awdurdodau a chyrff priodol ym Mhrydain Fawr gan adlewyrchu'r Protocol ar Iwerddon / Gogledd Iwerddon.

Felly, o 1 Ionawr 2021 mae gan y DU ei rhestr ei hun o Fitaminau a Mwynau i'w defnyddio mewn Atchwanegiadau Bwyd a phrosesau addasu ym Mhrydain Fawr. I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn, darllenwch y Rheoliadau Maeth (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) a'r nodiadau Canllaw ar ddeddfwriaeth sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2002/46/EC ar atchwanegiadau bwyd.